What is the School Grounds Survey 2026?
Following on from the success of the School Grounds Survey 2025, which invited all state-funded schools in Scotland to complete a short survey, LtL have secured funding to carry out a similar census-style survey in England, Northern Ireland and Wales this year. An email invitation will be sent to all state-funded schools covering ages 4 to 16, direct from Professor John McKendrick, of Glasgow Caledonian University, on 4th November 2026, with the survey closing to new submissions at the end of November.

Why should schools do it?
Primarily, this is an opportunity for educators to contribute to an important piece of evidence. The evidence will be useful in securing funding and resourcing commitment, furthering policy support for school grounds, and driving discussions around school grounds' role in play, climate mitigation, nature connection, learning, wellbeing and sport.

Filling in the survey is straightforward; participating is a chance to show the value educators place on school grounds. Thanks to our generous suppliers, who have agreed to donate a range of items, there's also a prize draw. Schools can opt into this with a simple tick-box during the survey. There are over 70 prizes to be won, which can be viewed in the email attachment or via the LtL webpage.

How long does it take to complete?
Each school should use the weblink provided to complete the survey online, using the link provided by email or from LtL's webpage. It will take about 20 minutes. We don't anticipate repeating this survey for several years.

How do I complete it in Welsh?
Schools in Wales can follow a link to access the survey in Welsh, or complete the survey in English. The short report will also be available in Welsh.

What do you mean by school grounds?
For the purpose of this study, school grounds are any spaces within the boundary of the school, but not including buildings. In some cases, school grounds will also include outdoor spaces that belong to the school that are beyond the main school campus, for example, off-site sports fields. School grounds include sports and athletic spaces, play and recreation areas, outdoor learning and nature areas, hard paving areas such as internal 'quad' type spaces, and infrastructure (such as parking, walkways, turning circles, drop-off zones.

What is it trying to find out?
LtL are hoping to gather broad-based evidence and insight into the provision of school grounds, and variations in usage across curriculum stages, geographical areas, and size and type. We wish to compare school grounds across nations and look for regional patterns. In Scotland, the information gathered has already supported discussions within the sector and within Government, including driving conversations about School Premises Regulations and outdoor learning and play policy.

Who is it aimed at?
The survey does not require specialist knowledge, but it will be easiest for a member of the school's Senior Leadership Team, or a teacher, governor or member of support staff with specific interest in the school's grounds, to complete it. This is because the nature of the questions is quite specific, covering toppics including:

- About your school – basic demographic data, funding information etc.
- Character of Your Grounds – size, regularity of use, accessibility, hard vs. soft surfaces
- School Grounds as a Resource – teaching, learning, playing
- Planning and Rules – barriers to using school grounds, and policies to support their use
- Community Use – including challenges such as vandalism
- Improvements – who, what, why and crucially, whether, improvements have been made

Can I see the results?
The results will be presented in spring 2027 as a short report per nation, aimed at educators, parents, funders, and policymakers. There will be a full academic report, bringing the data from 2025 and 2026 together for a UK-wide picture, in summer 2027. All reports will be available for free via ltl.org.uk/school-grounds-survey.

I have another question
Please contact Professor John McKendrick with queries about the survey itself, to raise a technical issue, or to ask for a link to be sent: jmke@gcu.ac.uk. For prize draw or media queries, or for support with school grounds, contact enquiries@ltl.org.uk

Beth yw Arolwg o Dir Ysgolion 2026?
Yn dilyn llwyddiant Arolwg o Dir Ysgolion 2025 a wahoddodd holl ysgolion gwladol yr Alban i gwblhau arolwg byr, mae LtL wedi sicrhau cyllid i gynnal yr un math o arolwg (tebyg i gyfrifiad) eleni o dir ysgolion yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd gwahoddiad yn cael ei anfon drwy ebost ar 4 Tachwedd 2026 i bob ysgol wladol sydd â disgyblion 4 i 16 oed, yn uniongyrchol oddi wrth yr Athro John McKendrick o Brifysgol Glasgow Caledonian, a bydd modd cyflwyno gwybodaeth newydd i'r arolwg tan ddiwedd mis Tachwedd.

Pam y dylai ysgolion gwblhau'r arolwg?
Yn bennaf, mae'n gyfle i addysgwyr gyfrannu i ddarn pwysig o dystiolaeth. Bydd y dystiolaeth yn ddefnyddiol i sicrhau ymrwymiad i ddarparu cyllid ac adnoddau; hybu cymorth o ran polisi ar gyfer tir ysgolion; ac ysgogi trafodaethau am rôl tir ysgolion o ran chwarae, lliniaru newid hinsawdd, cysylltu â natur, dysgu, llesiant a chwaraeon.

Mae llenwi'r arolwg yn syml; mae cymryd rhan ynddo'n gyfle i ddangos y gwerth y mae addysgwyr yn ei roi ar dir ysgolion. Diolch i'n cyflenwyr hael sydd wedi cytuno i roi amrywiaeth o eitemau, mae yna gyfle hefyd i ennill gwobrau. Gall ysgolion ddewis manteisio ar y cyfle hwnnw drwy roi tic mewn blwch yn ystod yr arolwg. Mae yna dros 70 o wobrau i'w hennill, a gellir eu gweld yn yr atodiad i'r ebost neu drwy dudalen LtL ar y we.

Faint o amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r arolwg?
Dylai pob ysgol ddefnyddio'r ddolen we a ddarparwyd i gwblhau'r arolwg ar-lein, gan ddefnyddio'r ddolen gyswllt a ddarparwyd drwy ebost neu o dudalen we LtL. Bydd yn cymryd tua 20 munud i'w gwblhau. Nid ydym yn rhagweld y bydd yr arolwg yn cael ei ailadrodd am sawl blwyddyn.

Sut mae cwblhau'r arolwg yn Gymraeg?
Gall ysgolion yng Nghymru ddilyn dolen gyswllt i gael mynediad i'r arolwg yn Gymraeg, neu gallant gwblhau'r arolwg yn Saesneg. Bydd yr adroddiad byr hefyd ar gael yn Gymraeg.

Beth rydych yn ei olygu wrth dir yr ysgol?
At ddiben yr astudiaeth hon, tir yr ysgol yw unrhyw fannau sydd o fewn ffin yr ysgol, ond heb gynnwys adeiladau. Mewn rhai achosion, bydd tir yr ysgol hefyd yn cynnwys mannau awyr agored sy'n perthyn i'r ysgol ond sydd y tu hwnt i brif gampws yr ysgol, er enghraifft, caeau chwaraeon sydd oddi ar y safle. Mae tir yr ysgol yn cynnwys mannau ar gyfer chwaraeon ac athletau, ardaloedd chwarae a hamdden, ardaloedd natur a dysgu yn yr awyr agored, ardaloedd palmantog caled megis mannau mewnol tebyg i 'gwad', a seilwaith (megis lleoedd parcio, llwybrau, cylchoedd troi a pharthau gollwng).

Beth y mae'n ceisio ei ddarganfod?
Mae LtL yn gobeithio casglu tystiolaeth eang a meithrin dealltwriaeth eang ynghylch y ddarpariaeth o ran tir ysgolion, a'r amrywiadau sy'n bodoli o ran y defnydd a wneir o dir ysgolion ar draws cyfnodau cwricwlwm, o ran ardaloedd daearyddol, o ran maint y tir ac o ran ei fath. Hoffem gymharu tir ysgolion ar draws y gwahanol wledydd a chwilio am batrymau rhanbarthol. Yn yr Alban, gwelwyd eisoes bod y wybodaeth a gasglwyd wedi hybu trafodaethau o fewn y sector ac o fewn y Llywodraeth, gan gynnwys sgyrsiau am Reoliadau Safleoedd Ysgol ac am bolisi dysgu a chwarae yn yr awyr agored.

Ar gyfer pwy y mae'r arolwg?
Nid oes angen gwybodaeth arbenigol i gwblhau'r arolwg, ond byddai'n haws i aelod o Uwch-dîm Rheoli'r ysgol, neu athro, llywodraethwr neu aelod o'r staff cymorth sydd â diddordeb penodol yn nhir yr ysgol, i'w gwblhau. Y rheswm am hynny yw bod y cwestiynau'n eithaf penodol eu natur a'u bod yn ymdrin â phynciau sy'n cynnwys y canlynol:

- Ynglŷn â'ch ysgol – data demograffig sylfaenol, gwybodaeth am gyllid, ac ati.
- Cymeriad eich tir – ei faint, pa mor rheolaidd y caiff ei ddefnyddio, hygyrchedd, arwynebau caled o gymharu ag arwynebau meddal
- Tir yr ysgol fel adnodd – addysgu, dysgu, chwarae
- Cynllunio a rheolau – rhwystrau i ddefnyddio tir yr ysgol, a pholisïau i hybu ei ddefnyddio
- Defnydd cymunedol – gan gynnwys heriau megis fandaliaeth
- Gwelliannau – pwy, beth, pam a chwestiwn arall hollbwysig, sef a oes gwelliannau wedi'u gwneud

A allaf weld y canlyniadau?
Bydd y canlyniadau'n cael eu cyflwyno yn ystod gwanwyn 2027, ar ffurf adroddiad byr am bob gwlad, ar gyfer addysgwyr, rhieni, cyllidwyr, a llunwyr polisi. Bydd yna adroddiad academaidd llawn, a fydd yn cyfuno'r data o 2025 a 2026 i greu darlun o'r DU gyfan, yn ystod haf 2027. Bydd pob adroddiad ar gael am ddim drwy ltl.org.uk/school-grounds-survey.

Mae gen i gwestiwn arall
Mae croeso i chi gysylltu â'r Athro John McKendrick i ymholi am yr arolwg ei hun, tynnu sylw at broblem dechnegol, neu ofyn am ddolen gyswllt: jmke@gcu.ac.uk
Ar gyfer ymholiadau am y cyfle i ennill gwobrau neu ymholiadau gan y cyfryngau, neu i gael cymorth yn ymwneud â thir ysgolion, anfonwch ebost i enquiries@ltl.org.uk